

# CYNGOR CYMUNED BRITHDIR A LLANFACHRETH

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanfachreth  
Nos Fawrth, Mawrth 20, 2018 am 7:30 o'r gloch.

## AGENDA

### **1. Croeso'r Cadeirydd**

### **2. Ymddiheuriadau:**

### **3. Datgan diddordeb.**

### **4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 20, 2018**

### **5. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 20, 2018**

Eitem 10. Llythyr (21/2/2018) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod bydd y gwaith o drwsio'r wal yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol newydd o fis Ebrill.

Llythyr (23/2/2018) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod mae amheuedd os bydd ffordd R14 yn cael ei agor oherwydd mae'n ffordd preifat.

Eitem 6.g. Llythyr (27/10/2018) oddi wrth Llywodraeth Cymru, trwy law Un Llais Cymru. Amgau mae Adroddiad Draft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2018. Mae'r adroddiad yn cynnwys cynigion a fyddai'n dod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/2019. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan <http://gov.wales/irpwsb/home/publication-reports/58592459/?skip=1&lang=cy> Adran 13 sy'n perthnasol i gynghorau tref a chymuned.

Eitem 5. Eitem 8.f. Anfonwyd llythyr (23/2/2018) i Uned Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd i gadarnhau ein bod yn penodi nhw fel ein Archwilydd Mewnol. Derbyniwyd y llythyr (27/2/2018) yn ôl wedi ei arwyddo gan Swyddog o'r Uned. Mae'n debyg bydd y ffi oddeutu £100.

### **6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (22/2/2018) oddi wrth Elusen Ambiwlans Cymru yn diolch am ein rhodd o £200.

b. Llythyr (22/2/2018) oddi wrth Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £200.

c. Llythyr (26/2/2018) oddi wrth Gwyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018 yn diolch am ein rhodd..

ch. Llythyr (26/2/2018) oddi wrth Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £250.

d. Galwad ffôn oddi (28/2/2018) wrth Mrs E. Roberts, Cefnan, Rhydymain. Roedd yn gofyn am gritter halen fynd ar hyd ffordd Drwsynant – Bryncoedifor yn enwedig at Cefnan, Rhydymain. Rhoddwyd gwybod i Priffyrdd.

Llythyr ateb (28/2/2018) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod nid yw'n bosib cyrraedd pobman ond gobeithio cyrraedd yn ystod y dyddiau nesaf.

dd. Llythyr ateb (6/3/2018) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd Chanolbarth Cymru yn rhoi gwybod maent wedi gwneud gwaith i wella'r sefyllfa y dŵr yn sefyll ar y ffordd A494 ger mynedfa Dolserau Hotel ers wal newydd gael ei adeiladu. (Eitem 10.b. Cofnodion Ionawr 2018)

e. Llythyr (10/3/2018) oddi wrth Yr Elusen Amaethyddol Frenhinol (RABI Meirionnydd). Maent angen cymorth ariannol. Mae ganddynt Gyngerdd Mawreddog ar nos Sadwrn, Mehefin 16, 2018 yn Ysgol Bro Idris, Dolgellau.

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (27/2/2018) yn rhoi gwybod cynhelir gweithdy i helpu'r cyngor deall sut y delir â cheisiadau cynllunio a sut allwn ni dylanwadu ar y penderfyniadau. Bydd y digwyddiad yn Plas Tan y Bwlch, Maentwrog ar ddydd Iau, Mawrth 8, 2018 am 2.00yp.

## **8. Materion Ariannol**

a. Llythyr (23/2/2018) oddi wrth HSBC yn rhoi gwybod bydd ein cyfrifon yn newid o 'HSBC Bank plc' i 'HSBC UK bank plc' ar 1/07/2018).

b. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 28 Chwefror 2018: £1,136.83.

dd. Balans yn y banc ar 28 Chwefror 2018: £6,015.24.

## **9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

a. Derbyniwyd llythyr (27/2/2018) oddi wrth Pennaeth, Hengwrt yn gofyn os mae'n bosib i Priffyrdd gritio'r ffordd o'r A494 at Hengwrt, a hefyd llenwi'r binniau halen. Anfonwyd y neges ymlaen i Priffyrdd.

b. Anfonwyd llythyr (27/2/2018) i Priffyrdd yn rhoi gwybod mae angen llenwi bin halen sydd wrth y stesion, Esgairgawr.

Rhoddwyd syniad iddynt i roi sticer ar y biniau gyda rhif ffôn cyswllt, a rhoi gwybod nid yw'r drefn presenol gyda'r biniau yn gweithio.

Rhoddwyd gwybod iddynt nid yw'r drefn i gael y Clerc i roi gwybod am yr angen i lenwi biniau yn gweithio.

Derbyniwyd llythyr ateb (1/3/2018) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod mai cais i lenwi biniau yn gorfod cael ei wneud gan y Cyngor Cymuned er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cais a'r gost.

## **10. Unrhyw fater arall**

Yn gywir,  
H.M. Edwards, Clerc